**GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD**
**(STRYD MARCWS, CAERNARFON)**
**(TREFN UNFFORDD) 2023**

**RHODDIR RHYBUDD TRWY HYN** fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud y Gorchymyn uchod o dan Adran 1(1) a (2) 2(1) i (3), 4(2) a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn fydd i wahardd unrhyw berson rhag achosi i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar hyd y darn hwnnw o'r ffordd a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen i hyn mewn unrhyw gyfeiriad ar wahân i'r cyfeiriad a bennir yn yr Atodlen.

Mae manylion llawn am y cynigion hyn yn y Gorchymyn sydd, ynghyd â chynllun yn dangos y ffordd yr effeithir arni a datganiad o resymau'r Cyngor dros argymell gwneud y Gorchymyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn:-

(a) Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon;
(b) Y Llyfrgell Gyhoeddus Caernarfon

yn ystod oriau gwaith arferol.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar yr 20fed dydd o fis Chwefror, Dwy fil a Dau Ddeg Tri gellir ei ddyfynnu fel "Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Stryd Marcws, Caernarfon) (Trefn Un-Ffordd) 2023."

Os dymuna unrhyw berson amau dilysrwydd y Gorchymyn ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd gan Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas a'r Gorchymyn neu unrhyw gymal ohono gellir gwneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y cyhoeddir y rhybudd hwn.

**ATODLEN**

| Lleoliad Disgrifiad | Newydd |
|---|---|
| **CAERNARFON** | |
| **Ffordd Ddi-Ddosbarth - Stryd Marcws** | |
| O'i gyffordd â Ffordd Segontiwm gan deithio mewn cyfeiriad de orllewinol yn unig i Henwalia. | TREFN UNFFORDD |
| Dim mynediad o Henwalia mewn cyfeiriad gogledd ddwyreiniol hyd at Ffordd Segontiwm. | DIM MYNIEDIAD |

Dyddiedig y 15fed o Chwefror, 2023.

Iwan G D Evans LLB (Anrh) PG.Cert. Dip.L.G
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH
Am fwy o fanylion ynglŷn â'r uchod ffoniwch y Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau 01286 679650
(CAT-4030 KFD)

**THE CYNGOR GWYNEDD**
**(MARCUS STREET, CAERNARFON)**
**(ONE WAY TRAFFIC) ORDER 2023**

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that Cyngor Gwynedd have made an Order under Section 1(1) and (2) 2(1) to (3), 4 (2) and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit any person from causing any vehicle to proceed along the road specified in the first column of the schedule hereto save in the direction specified in the schedule.

The Order, together with a map showing the length of road concerned and a Statement of the Council's reasons for proposing to make the Order, may be examined at:-

(a) Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon;
(b) The Public Library, Caernarfon

during normal business hours.

This Order shall come into operation on the 20th day of February, Two thousand and Twenty Three and may be cited as "The Gwynedd Council (Marcus Street, Caernarfon) (One-Way Traffic) Order 2023".

Any person wishing to question the validity of the Order on the grounds that it is not within the powers conferred by the Road Traffic Regulation Act 1984 or on the ground that any regulations made under the act were not complied with in relation to the Order or any part of it may make application to the High Court for that purpose within six weeks of the date of publication of this notice.

**SCHEDULE**

| Location/Description | New |
|---|---|
| **CAERNARFON** | |
| **Unclassified Road - Marcus Street** | |
| From its junction with Segontium Road South proceed in a south westerly direction only to Henwalia. | ONE WAY SYSTEM |
| No entry from Henwalia travelling in a north easterly direction to Segontium Road South. | NO ENTRY |

Dated the 15th February, 2023.

Iwan G D Evans LLB(Hons) PGCert. Dip.L.G
Head of Legal Services,

Cyngor Gwynedd, Shirehall Street, **CAERNARFON,** Gwynedd, LL55 1SH
For further information regarding the above please telephone the Traffic and Projects Service on (01286) 679650 (CAT-4030 KFD)